**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: VG-PO-067-24

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

4 Mawrth 2024

Annwyl Huw,

Diolch i chi am roi copi i mi o adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel).

Rwyf wedi ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad ac wedi amlinellu fy ymatebion isod:

**Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o wybodaeth am ei safbwynt mewn perthynas â chymal 2 o'r Bil, a chanlyniadau dymunol unrhyw ddiwygiadau yr hoffai iddynt gael eu gwneud i'r cymal.**

Nid yw ein safbwynt mewn perthynas â chymal 2 wedi newid, mae'n parhau fel y nodir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 8 Rhagfyr 2023. Hoffem weld cymal 2 yn cael ei ddiwygio fel bod:

(a) cymal 2 yn cael ei roi i Weinidogion Cymru mewn perthynas â gweithredu Erthygl 8.6 o Gytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel (CPTPP) mewn meysydd datganoledig, neu

(b) cwmpas cymal 2 yn cael ei gyfyngu i ddiwygio is-ddeddfwriaeth sy'n bodoli ar yr adeg y daw cymal 2 i rym. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ddarpariaeth ddatganoledig sy'n bodoli mewn is-ddeddfwriaeth ar hyn o bryd y gellid ei diwygio gan gymal 2, ac nid oes gennym reswm i feddwl y bydd hynny'n newid rhwng nawr a'r adeg pan ddaw cymal 2 i rym. Byddai lleihau cwmpas cymal 2 yn y modd hwn yn golygu na ellid ei ddefnyddio i ddiwygio darpariaeth ddatganoledig sydd wedi'i chynnwys yn y math o is-ddeddfwriaeth y mae'n gweithredu arni.

Fe wnaeth swyddogion hefyd gynnig gweithio gyda Llywodraeth y DU ar ddiwygiad addas.

Er bod Llywodraeth y DU wedi parhau i gynnal ei safbwynt bod y cymal hwn yn dod o fewn cymhwysedd a gedwir yn ôl, rydym yn parhau i anghytuno â'i hasesiad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru roi’r wybodaeth ddiweddaraf am ei hymgysylltiad â Llywodraeth y DU mewn perthynas â chymal 2 o’r Bil.**

Er bod ymgysylltu rhwng swyddogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi bod yn gadarnhaol ac yn ddefnyddiol yn bennaf, mae ein hymdrechion i berswadio Llywodraeth y DU i ddiwygio cymal 2 wedi bod yn aflwyddiannus yn y pen draw. Mae Llywodraeth y DU yn parhau i ystyried cymal 2 fel un a gedwir yn ôl ac felly nid yw'n fodlon gwneud unrhyw welliannau.

**Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru ailadrodd ac adeiladu ar y dull a ddefnyddiwyd wrth adrodd ar ei safbwyntiau ar y DU yn dod yn aelod o’r CPTPP ar gyfer cytundebau masnach rydd rhyngwladol yn y dyfodol y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth y DU.**

Rwy'n croesawu'r sylwadau gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar adroddiad safbwynt Llywodraeth Cymru ar CPTPP ac rwy'n falch o glywed ei fod wedi helpu eich gwaith craffu ar y memoranda. Hoffwn sicrhau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y gallwch ddisgwyl dull tebyg o ran trafodaethau'r DU yn y dyfodol, pan fydd y wlad, neu'r gwledydd, yn ddigon arwyddocaol.

Rwy'n gobeithio bod yr ymatebion yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy